# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **FFRAMWAITH CYNLLUNIO GIG CYMRU 2026-2029** |
| **Swyddog(ion) sy'n cynnal yr Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Brent Shurn**<br>**Cynllunio'r GIG** |
| **Adran:** | **Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar** |
| **Pennaeth yr Is-adran /Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Samia Edmonds**<br>**Cyfarwyddwr Datblygu Strategol** |
| **Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol:** | **Jeremy Miles**<br>**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Rhagfyr 2025** |


## A. ASESIAD O’R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Ar ôl ei gwblhau, rhaid anfon **pob** Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant i fewnflwch CRIA@llyw.cymru

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) a’i Brotocolau Dewisol wrth iddynt arfer unrhyw rai o’u swyddogaethau.

Proses yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

*Noder bod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ers tro, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich fersiwn ddrafft o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Cysylltwch â’r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.*




I gael cyngor ac arweiniad pellach ar broses yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant, dylech droi at *Y Llawlyfr Staff ar Hawliau Plant* neu gysylltu â’r Gangen Plant *CRIA@llyw.cymru*

## 1. Amcanion polisi

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cael ei lywio gan flaenoriaethau a pholisïau sy'n cael eu cyhoeddi a'u cytuno gan Lywodraeth Cymru, felly nid yw'n cael mwy na llai o effaith na'r sefyllfa bresennol.

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith cyhoeddi fframwaith cynllunio eleni, sy'n rhoi arweiniad i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG ynghylch blaenoriaethau a dull gweithredu ar gyfer datblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs). Mae'n ofyniad statudol i Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu'r cyfarwyddydau hyn.

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cefnogi dull gweithredu cyson gan fyrddau iechyd lleol ledled Cymru ac yn nodi meysydd blaenoriaeth.

Mae'r meysydd blaenoriaeth strategol allweddol ar gyfer y fframwaith cynllunio hwn yn parhau i gefnogi gwasanaethau system ehangach ar gyfer gofal a thriniaeth cleifion, ac maent yn gyson â blaenoriaethau blaenorol.
Ar gyfer fframwaith 2026-2029, y rhain yw:

- Mynediad Amserol at Ofal
- Iechyd y Boblogaeth ac Atal
- Dull gweithredu Cymunedol o’r Cychwyn
- Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl
- Iechyd Menywod
- Ansawdd a Diogelwch

Rhaid i sefydliadau'r GIG (fel rhan o'u hasesiad iechyd poblogaeth) ystyried a chydnabod bod pwysau parhaus ar y GIG yn cael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc, yn ogystal â gwaethygu anghydraddoldebau iechyd. Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn rhoi sylw i ansawdd a lefelau'r gwasanaethau i sicrhau bod lleihau anghydraddoldeb yn hanfodol er mwyn gwneud yn siŵr nad yw plant, na rhannau eraill o gymunedau yng Nghymru, o dan anfantais o ran mynediad at ofal a thriniaeth.

Mae'r fframwaith cynllunio yn nodi nifer o ofynion penodol ar gyfer gwasanaethau plant, gan gynnwys er enghraifft brechiadau, pwysau iach, mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a gwella ansawdd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cyfeirio at y polisïau a'r rhaglenni sy'n llywio ac yn sail i'r fframwaith cynllunio hwn.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd â phlant a phobl ifanc wrth ddatblygu'r polisïau sy'n dylanwadu arnynt.

Mae *Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru* yn ailbwysleisio'r angen i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ystyried anghenion plant a phobl ifanc wrth iddynt ailgodi’n gryfach y gwasanaethau y bydd eu

hangen arnynt. **Trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru**

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Pob Oed 2025-2035 yn cynnwys ffocws cryf ar blant a phobl ifanc, gan sicrhau bod eu hawliau a'u hanghenion wedi'u hymgorffori mewn polisi iechyd meddwl. Ar gyfer plant a phobl ifanc:

- Rhaid i wasanaethau iechyd meddwl fod yn gynhwysol ac yn briodol i oedran, gan gwmpasu pob oed o'r blynyddoedd cynnar i'r glasoed.
- Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar hawliau CCUHP, gan gynnwys:
    - Erthygl 6: Hawl i dyfu'n iach.
    - Erthygl 12: Hawl i gael gwrandawiad
    - Erthygl 24: Hawl i ofal iechyd o ansawdd da.

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd newydd yn ddylanwad cryf ar y fframwaith cynllunio hwn. Wrth ddatblygu a phenderfynu gweithredu'r gofyniad statudol newydd hwn, ystyriwyd ymchwil ynghylch a chyda phlant a phobl ifanc, er enghraifft

- Yn ei adroddiad ymchwiliad cyhoeddus i lawdriniaethau ar y galon ar blant yn Ysbyty Brenhinol Bryste, dywedodd Kennedy, I (2001) "We consider the need for a culture of openness and honesty within the hospital as a whole, and we argue for a duty of candour towards patients when things go wrong or concerns are raised."

*Kennedy, I. The Bristol Royal infirmary inquiry. Learning from Bristol - The Report of the Public Inquiry into children's heart surgery at the Bristol Royal Infirmary 1984-1995 [Rhyngrwyd]. Y Goron; 2001. Ar gael yn:* ***Ymchwiliad Bryste i lawdriniaeth ar y galon i blant 1984-1995***

- Mewn ymchwiliad annibynnol a gomisiynwyd gan Brif Weinidog Cymru i'r amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth bachgen deg oed, Robert Powell, gwnaed nifer o argymhellion yn ymwneud â gonestrwydd o dan y thema *"better communication and involvement with patients and their families"* pan fydd pethau'n mynd o chwith. Defnyddiodd yr elusen Action Against Medical Accidents (AvMA) achos Robbie Powell i ymgyrchu dros ddyletswydd gonestrwydd sefydliadol statudol yn y DU, "Cyfraith Robbie"**

* Jones, N. THE ROBERT POWELL INVESTIGATION - A REPORT TO THE WELSH MINISTERS [y Rhyngrwyd]. 2012. Ar gael yn: Adroddiad Robert Powell

**Walsh, P. (2020) The Duty of Candour – where are we now? The Introduction of the Duty of Candour Professional Standards Authority for Health & Social Care, Insights into Regulation, Blog, 30 Ionawr 2020

Wrth ddatblygu'r Ddyletswydd Gonestrwydd, cynhaliwyd grŵp ffocws bach gyda phedwar person ifanc sy'n cael eu cefnogi gan Plant yng Nghymru. Yn dilyn hyn, mae'r canllawiau ar gyfer plant a phobl ifanc bellach yn cael eu hystyried ymhellach gan Plant yng Nghymru.

Ymysg yr enghreifftiau eraill o ymgynghori mae ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc ynglŷn â darpariaeth offthalmoleg Asesiad Effaith Integredig

At hynny, mae polisïau ehangach fel Creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach - Asesiad Effaith wedi treulio amser yn ystyried adborth gan blant; yn yr achos hwn cafodd pobl ifanc eu cynnwys wrth ymgysylltu at ddibenion datblygu'r polisi.

---

*I gael cyngor ar waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc cysylltwch â'r Gangen Plant. Mae gennym berthynas ers tro â Plant yng Nghymru, a allai eich helpu i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy ei raglen Cymru Ifanc.*

---

**3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

Dylai'r fframwaith cynllunio hwn gael effaith gadarnhaol ar blant drwy wella eu hiechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. At hynny, mae rhai o'r blaenoriaethau a nodwyd hefyd yn blaenoriaethu plant, gan gynnwys

Mae'r "Rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru" (Llywodraeth Cymru Ebrill 2022) Trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd yng Nghymru a lleihau rhestrau aros yn nodi'r canlynol:

- dylid blaenoriaethu diagnosis o ganser a mathau eraill o ddiagnosis blaenoriaeth brys i blant.
- dylid blaenoriaethu triniaeth ddeintyddol i blant sydd mewn grwpiau risg uwch, megis y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is
- ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc, mae cydnabyddiaeth bod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar iechyd a lles plant.
- mae oedi o ran apwyntiadau cleifion allanol, profion diagnostig a llawdriniaethau yn fwy arwyddocaol i blant ifanc

Yn yr un modd â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Pob Oed 2025–2035 sy'n cynnwys ffocws cryf ar blant a phobl ifanc, gan sicrhau bod eu hawliau a'u hanghenion wedi'u hymgorffori mewn polisi iechyd meddwl

Disgwylir i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ymgysylltu a gweithio'n agos gyda'u defnyddwyr gwasanaethau i gyflawni'r canlyniadau iechyd a lles gorau posibl i blant a phobl ifanc.

Mae'r ffocws ar ofal sylfaenol yn cynnwys gofynion penodol ynghylch effaith gadarnhaol ar gyfer plant megis:

- Mae'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol newydd yn cynnwys gofyniad i gontractwyr meddygon teulu fod yn gyfrifol am wyliadwriaeth iechyd plant

Rheoliadau contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol Cymru -2023 - Asesiad Effaith Integredig

- Bwriad diwygio gwasanaethau offthalmig yw cyflymu mynediad at ofal clinigol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a'r rhai o dan 16 oed (gan gynnwys y rhai mewn gofal) sy'n gymwys i gael prawf golwg y GIG a thaleb ar gyfer cyflenwi, atgyweirio a chyfnewid teclynnau optegol. Adroddiad ar wasanaethau offthalmig - Asesiad Effaith Integredig

Mae'r rhaglen trawsnewid **Cymunedol o'r Cychwyn** yn elfen allweddol o Fframwaith Cynllunio GIG Cymru sy'n anelu at gryfhau'r broses o ddarparu gofal yn agosach at adref trwy wasanaethau sylfaenol a chymunedol cryfach. Mae'n hyrwyddo modelau integredig, sy'n canolbwyntio ar y claf sy'n lleihau dibyniaeth ar ysbytai acíwt, gwella mynediad amserol at ddiagnosteg a thriniaeth, a chefnogi atal a gwella llesiant. Drwy feithrin cydweithio rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid trydydd sector, mae'r dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn yn ceisio creu systemau gofal cynaliadwy, teg wedi'u teilwra i anghenion lleol, gan sicrhau canlyniadau a phrofiadau gwell i bobl ledled Cymru. Mae Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu i ddatblygu'r agenda hon.

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn cael effaith gadarnhaol ar blant yn sgil y ffaith fod Corff Llais y Dinesydd yn darparu cyngor a chymorth ynghylch cwynion i'r plant a'r bobl ifanc hynny nad oes ganddynt hawl statudol ar hyn o bryd i eiriolwr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (Ansawdd ac Ymgysylltu) - Asesiad Effaith

Mae Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu'r cyd-destun ar gyfer y fframwaith cynllunio hwn a'r sylfeini ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y GIG.

Cymru Iachach yw'r cynllun hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau gwasanaethau gofal iechyd diogel ac effeithiol. O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae'n ofynnol i bob darparwr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gynnal asesiadau poblogaeth a chyhoeddi cynlluniau ardal sy'n nodi sut maent yn diwallu anghenion grwpiau blaenoriaeth penodol – un ohonynt yn blant a phobl ifanc. Cymru Iachach - Asesiad o'r effaith ar hawliau plant

Mae cyrff y GIG yn deall pa mor bwysig yw hi iddynt ddilyn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus newydd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant mewn sawl ffordd.

- Ar gyfer plant 16-18 oed mewn gwaith, bydd y bil yn cefnogi gwaith teg i leihau tlodi sydd, yn ei dro, yn sbardun allweddol ar gyfer iechyd da
- Drwy leihau anghydraddoldeb a thlodi, bydd hyn yn lleihau nifer y plant sy'n byw mewn tlodi ac yn gwella eu canlyniadau iechyd
- Mae effaith ehangach o ran caffael lle mae'r ddeddf yn diffinio dyletswyddau diwydrwydd dyladwy sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, sy'n cynnwys canolbwyntio ar risgiau llafur plant mewn cadwyni cyflenwi.

**Erthygl 1**: Mae gan bawb dan 18 oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.
**Erthygl 2:** Mae'r Confensiwn yn gymwys i bawb, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.
**Erthygl 3:** Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.
**Erthygl 4:** Dylai llywodraethau sicrhau bod yr hawliau hyn ar gael i blant.
**Erthygl 6:** Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.
**Erthygl 12:** Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.
**Erthygl 23:** Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael cefnogaeth a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol.
**Erthygl 24:** Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i gael dŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddynt gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.
**Erthygl 27:** Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.
**Erthygl 39:** Dylai plant sydd wedi eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael cymorth arbennig i adfer eu hunan-barch.

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| Erthyglau 1,2,3,4 | X | | Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cael ei ddylanwadu gan bolisïau a chanllawiau i sicrhau bod pawb o dan 18 oed yn cael eu cefnogi'n gadarnhaol gan sefydliadau sy'n gyfrifol am eu gofal iechyd |
| Erthygl 6 - Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach. | X | | Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cefnogi'r erthygl hon yn benodol drwy sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn cael eu cyfarwyddo i gynllunio gwasanaethau sy'n cael eu hysbysu'n briodol drwy Gymru Iachach a bod plant wedi cael eu blaenoriaethu'n benodol wrth ystyried amseroedd aros drwy bolisi 3P ac mae'r strategaeth iechyd meddwl pob oed yn darparu cymorth priodol i blant a phobl ifanc. |

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| | | | Drwy'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, mae dylanwad ehangach i leihau'r risg o lafur plant a thlodi plant. |
| Erthygl 12 - Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw, ac i’w barn gael ei hystyried. | X | | Drwy'r Ddyletswydd Gonestrwydd, mae gan blant yr hawl i gael gwybod pan fo camgymeriadau wedi'u gwneud yn eu gofal iechyd a chymryd rhan yn y broses o ddarganfod yr wybodaeth hon a chodi pryderon |
| Erthygl 23 – Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd dderbyn gofal arbennig a chefnogaeth er mwyn gallu byw bywyd llawn ac annibynnol. | X | | Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cael ei ddylanwadu gan y model cymdeithasol o anabledd a bydd disgwyl i sefydliadau'r GIG ystyried hyn wrth drin plant ag anableddau |
| Erthygl 24 - Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw’n iach. Dylai gwledydd cyfoethog | X | | Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn darparu cyfarwyddiadau i sefydliadau'r GIG, a'r polisïau sy'n dylanwadu ar y fframwaith yw'r sylfeini ar gyfer darparu gofal iechyd o ansawdd da. Mae Cymru'n cefnogi gwledydd tlotach gyda hyn drwy'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. |

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | | | |
| Erthygl 27 – Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.<br><br>Erthygl 39 - Dylai plant sydd wedi dioddef esgeulustod neu gamdriniaeth gael cymorth arbenigol i adfer eu hunan-barch. | X | | Iechyd Meddwl yw un o'r blaenoriaethau ar gyfer y fframwaith cynllunio hwn ac mae'r strategaeth iechyd meddwl pob oed yn cefnogi iechyd a llesiant pob plentyn a pherson ifanc. |

- Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

---

*I gael rhagor o wybodaeth ynghylch CCUHP a'i Brotocolau Dewisol, ewch i'r Dudalen Hawliau Plant ar y Fewnrwyd.*

---

**4. Cyngor a phenderfyniadau gweinidogol**

5. Y cyngor Gweinidogol yw bod y fframwaith cynllunio hwn fod yn gymwys i bawb, waeth beth fo'u hoedran. Bydd angen i sefydliadau'r GIG ystyried effaith y fframwaith cynllunio hwn ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, wrth iddynt ddatblygu eu IMTPs. **Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

**6.**

- *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*

- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at reolwr gwe eich adran i'w cyhoeddi.*

- *Yn ogystal, rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi ei gwblhau i flwch post CRIA@llyw.cymru.*

---

*I gael rhagor o wybodaeth a chymorth o ran y broses hon, ewch i'r dudalen Hawliau Plant ar y Fewnrwyd sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau.*

---

**7. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

- Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Nid yw'r fframwaith cynllunio yn datblygu polisi ynddo'i hun. Mae'n gasgliad o bolisïau presennol sydd wedi'u dwyn ynghyd i sicrhau bod gan Sefydliadau'r GIG set gryno o gyfarwyddiadau a gwybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet i'w cynorthwyo i fireinio eu IMTPs (cynlluniau).

O'r herwydd, bydd yr ymgysylltu a'r trafod gyda phlant a phobl ifanc wedi digwydd pan sefydlwyd y polisïau presennol.

**8. Monitro ac Adolygu**

- Amlinellwch pa drefn ar gyfer monitro ac adolygu y byddwch yn ei rhoi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Nid yw'r fframwaith cynllunio yn datblygu polisi ynddo'i hun. Mae'n gasgliad o bolisïau presennol sydd wedi'u dwyn ynghyd i sicrhau bod gan Sefydliadau'r GIG set gryno o gyfarwyddiadau a gwybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet i'w cynorthwyo i fireinio eu IMTPs (cynlluniau). Cyfrifoldeb yr arweinydd polisi fyddai unrhyw adolygiad a gwaith monitro er mwyn addasu a diwygio'r polisi presennol unwaith y bydd yn weithredol.

- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r modd y'i rhoddir ar waith?

Mater i arweinwyr polisi y polisïau penodol fydd adolygu a phenderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau naill ai i'r polisi neu ei weithrediad.